Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Fali
# Y Fali
# Ynys Môn
# LL65 3EU

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Mr Goronwy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/08/2012**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymuned Fali ar gyrion y pentref, rhyw ddwy filltir o dref Caergybi. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Ynys Môn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref, er daw nifer fechan o ddisgyblion o ardal ehangach, megis pentrefi Caergeiliog, Rhoscolyn a Bae Trearddur. Mae'r niferoedd sy'n mynychu'r ysgol wedi gostwng o tua 20% ers yr arolygiad diwethaf.

Ystyrir y disgyblion a ddaw i'r ysgol fel rhai o gefndiroedd sydd heb fod yn ddifreintiedig nac ychwaith yn ffyniannus. Ychydig dros 40% o'r disgyblion a ddaw o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Does yr un plentyn o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Derbynnir plant i ddosbarth meithrin yr ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn i'r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair. Yn ystod yr arolygiad, roedd 104 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan bedwar o athrawon amser llawn ac un rhan amser. Addysgir yn bennaf yn y Gymraeg.

Mae 26% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl, ffigwr sydd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru a chyfartaledd yr awdurdod addysg. Mae 22% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae gan dri disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigurau hyn yn agos i'r cyfartaleddau cenedlaethol

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ebrill 2011 a phenodwyd dirprwy yn Ionawr 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Fali yn 2011-12 yn £3630. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £6563 a'r lleiafswm yw £2636. Mae Ysgol Fali yn safle 24ain o'r 50 o ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae elfennau o berfformiad Ysgol Y Fali yn dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- lefelau cymhelliant ac ymddygiad disgyblion yn uchel;
- ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sydd yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion;
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, cartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel; a
- cydweithio hwylus ac effeithiol yr holl staff ac ystod o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

Er hynny, digonol yw perfformiad cyfredol oherwydd:

- bod tueddiadau yng nghanlyniadau asesiadau athrawon dros gyfnod yng nghyfnod allweddol 2 yn is na chanlyniadau ysgolion tebyg;
- nid oes digon o gynnydd ym medrau llafar Cymraeg ac ysgrifennu estynedig disgyblion yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2; a
- nid yw gweithgareddau dysgu cyfnod allweddol 2 yn ymestyn yn llawn yr holl ddisgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth a'r dirprwy yn rhannu gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel sydd wedi cael eu cyfleu'n llwyddiannus i'r staff a'r disgyblion a'r llywodraethwyr;
- blaenoriaethau priodol wedi eu sefydlu sydd yn rhoi sylw amlwg i wella safonau;
- tystiolaeth glir o welliant mewn meysydd pwysig mewn amser byr;
- ymroddiad yr holl staff i ddatblygu'r ysgol yn gymuned addysgol drefnus sy'n canolbwyntio ar godi safonau; a bod
- y corff llywodraethol yn gefnogol ac ymwybodol o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg.

## Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1. sicrhau fod mwy o ddisgyblion yn cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;

A2. godi safonau llafar yn y Gymraeg, ac ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2;

A3. wella presenoldeb disgyblion;

A4. sicrhau bod y gweithgareddau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn ymestyn yn llawn disgyblion o bob gallu;

A5. sicrhau bod trefniadau hunan arfarnu'r ysgol yn rhoi sylw dyladwy i effeithiolrwydd ac effaith systemau a strategaethau'r ysgol; a

A6. bod targedau yn y cynllun datblygu ysgol yn benodol a mesuradwy

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

*Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1 yn 2011, cyflawnodd bron pob disgybl y lefel disgwyliedig (lefel 2) yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 2 hefyd cyflawnodd bron pob disgybl y lefel disgwyliedig yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn gyda'r uchaf yn y teulu ac yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl.

Fodd bynnag, dros gyfnod o bedair blynedd mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y ddau gyfnod allweddol wedi amrywio. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau asesiadau athrawon yn is na chanlyniadau ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru mewn tair o'r blynyddoedd hynny. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl roedd ymhlith y 25% isaf yng Nghymru mewn dwy ohonynt.

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch hefyd yn amrywio. Yng nghyfnod allweddol 2, heblaw am Saesneg yn 2010 a 2011, mae wedi bod yn is na ffigurau'r teulu o ysgolion a Chymru dros y cyfnod hwn.

Ar draws yr ysgol, gall rhan fwyaf y disgyblion alw i gof dysgu blaenorol yn dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol mewn gwersi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Yn y Cyfnod Sylfaen, fe wna'r rhan fwyaf o'r plant gynnydd cyson ac amlwg ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn datblygu'n dda. Fe welir y cynnydd da hwn hefyd yn llyfrau llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Yn eu gwersi, mae'r rhan fwyaf yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Er hyn, nid yw'r cynnydd yn gyson dros gyfnod mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol.

Mae'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoed a gallu. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni cystal ag y gallent. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. O ystyried eu cefndir ieithyddol mae eu medrau llafar yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu yn effeithiol yn y Gymraeg wrth drin a thrafod mewn amrywiol bynciau. Er hynny, mae tueddiad i lawer ohonynt ddefnyddio'r Saesneg wrth drafod eu gwaith gyda'i gilydd. Lleiafrif sy'n defnyddio geirfa gyfoethog a chystrawennau'n gywir yn y Gymraeg. Mae bron pob un yn cyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y Gymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen maent yn darllen testunau syml gyda mwynhad, yn gynyddol hyderus a chywir. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod briodol o destunau gyda chywirdeb cynyddol. Er hyn, lleiafrif sy'n darllen ar goedd gyda rhuglder ac yn lliwio'u mynegiant yn dda. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol at wahanol ddibenion. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y maent yn defnyddio atlas a chyfeirlyfrau'n hyderus ac effeithiol i ddarganfod a rhannu gwybodaeth am wahanol wledydd. Mae'r rhan fwyaf yn darllen Saesneg yn gywir ac yn ystyrlon. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn Saesneg yn effeithiol i gywain a chyflwyno gwybodaeth, gan ddefnyddio eu medrau trawsieithu'n gelfydd i gyflwyno'r wybodaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio atalnodi yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n gywir yn y ddwy iaith mewn ystod o ffurfiau. Mae eu sgiliau atalnodi a sillafu'n datblygu'n briodol. Er hyn, nid yw eu gallu i ysgrifennu'n greadigol ac estynedig yn y ddwy iaith wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Ychydig o'r disgyblion sy'n ysgrifennu darnau hir o waith. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn eu llyfrau yn dda.

### Lles: Da

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r angen i fagu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd. Maent yn falch o'u hysgol, yn teimlo'n ddiogel a hapus yno ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae lefelau cymhelliant rhan fwyaf y disgyblion yn uchel ac maent yn ymroi yn frwdfrydig i'r gweithgareddau dysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau ac yn cyfrannu'n effeithiol i'r gwersi. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae llawer yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn gwybod beth sydd angen iddynt wneud i wella eu gwaith.

Mae'r holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio.

Yn ystod tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi bod yn is na rhai ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae medrau personol, cymdeithasol a bywyd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd a gwaith tu allan i'r ysgol. Maent yn meithrin dealltwriaeth dda o ddinasyddion fyd eang. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i fynegi barn a chyfrannu at ddatblygiad yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau cyfoethog y tu fewn a thu allan sy'n bodloni diddordeb ac anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Mae'r ddarpariaeth yn ymdrin yn briodol â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae'r athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio eu gwersi yn effeithiol gan adeiladu yn briodol ar yr hyn mae disgyblion yn ei wybod. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn ac yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn elwa o weithgareddau ysgogol a bywiog. Cynigir ystod o brofiadau diddorol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Er hyn, nid yw'r profiadau dysgu bob amser yn sicrhau datblygiad cyson ar draws y cyfnod allweddol nac yn cynnig digon o her i ddisgyblion o allu uwch.

Mae cynllunio ar gyfer y medrau yn cael lle amlwg ar draws yr ysgol. Rhoddir sylw da hefyd i ddatblygu sgiliau meddwl. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar yn y Gymraeg nac ychwaith medrau ysgrifennu estynedig yn llwyr effeithiol yng nghyfnod allweddol 2.

Rhoddir sylw da i'r dimensiwn Cymreig trwy gyfrwng gweithgareddau amrywiol yn dathlu diwylliant Cymru.

Trwy hyrwyddo cynlluniau fel masnach deg a chysylltiadau gyda gwledydd amrywiol yn llwyddiannus, mae'r ysgol yn datblygu'n effeithiol, ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Enghraifft dda o hyn yw'r cysylltiadau agos gydag Iwerddon.

## Addysgu: Da

Mae perthynas waith dda yn amlwg yn y dosbarthiadau ac mae staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi mae ffocws amlwg, amcanion clir, a chyfle i'r disgyblion fyfyrio ar yr hyn a ddysgwyd. Mae cyflymder bwriadus a holi medrus yn ymestyn dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r disgyblion yn effeithiol. Defnyddir amrywiaeth o arddulliau addysgu diddorol. Yn yr ychydig wersi lle gwelwyd arfer rhagorol roedd cyflwyniad byrlymus a defnydd dychmygus o adnoddau yn ysbrydoli'r disgyblion ac yn gwneud iddynt feddwl drostynt eu hunain. Yn yr ychydig wersi lle'r oedd yr addysgu yn llai effeithiol nid oedd yr amcanion yn amlwg na'r tasgau dysgu yn ymateb i anghenion yr ystod gallu.

Mae rhan fwyaf o'r marcio yn gadarnhaol ac yn hybu disgyblion i wella eu gwaith. Mae'r arfer o gynnwys disgyblion yn y broses o asesu eu gwaith eu hunain yn datblygu'n dda.

Mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio system dracio newydd yn ddiweddar i gryfhau'r broses o gadw golwg ar gynnydd disgyblion.

Drwy adroddiadau a chyfarfodydd tymhorol, mae rhieni'n derbyn gwybodaeth glir am gyflawniadau eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae parch a gofal amlwg ymysg y disgyblion a'r oedolion. Trwy holiaduron a chyfarfodydd wythnosol y cyngor ysgol a'r cyngor eco annogir disgyblion i fynegi barn yn rheolaidd, i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygiadau o fewn yr ysgol ac i fod ynghlwm â gweithgareddau yn y gymuned leol. Enghraifft dda o hyn yw papur newydd 'Y Golau' sy'n cael ei gyhoeddi gan y disgyblion hŷn i rannu gwybodaeth gyda rhieni.

Mae profiadau niferus ac effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r cyfnodau cydaddoli yn cyfrannu'n effeithiol drwy gynnig cyfle i ddisgyblion fyfyrio er enghraifft am bwysigrwydd y rhai sydd yn ein helpu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff anghenion eu hadnabod yn gynnar ac mae cynlluniau addysg unigol priodol ar eu cyfer. Mae cyswllt agos gyda'r rhieni yn cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn. Enghraifft dda o ddarpariaeth ychwanegol yw'r clwb mathemateg ar ôl ysgol.

Mae'r gofal ar gyfer y disgyblion ag anghenion dwys yn nodwedd gref. Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaethau arbenigol a chysylltiadau gydag asiantaethau allanol. Mae'r athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda fel tîm i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae sylw a phwyslais amlwg ar greu amgylchedd diogel a gofalgar, ac fe welir hyn yn natur glos a chymdeithasol yr ysgol.

Llwydda'r ysgol i weithredu fel cymuned gynhwysol iawn lle mae pawb yn cael ei barchu'n dda. Mae cyfle cyfartal i bawb. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth ac mae yma gyfle cyfartal i bawb. Mae digon o adnoddau da sy'n gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion, a gwneir defnydd effeithiol ohonynt.

Mae'r amgylchedd ddysgu ym mhob dosbarth yn ddeniadol gydag arddangosfeydd lliwgar ac ysgogol sydd yn dangos parch at waith y disgyblion.

Mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r ardal allanol, yn cynnwys yr ardd lysiau, wedi ei datblygu'n dda ac yn cynnig amrywiaeth o brofiadau cyfoethog i'r disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol. Mae ganddi weledigaeth glir a disgwyliadau uchel sydd wedi cael eu cyfleu'n llwyddiannus i'r staff, y

disgyblion a'r llywodraethwyr. Mae yma ethos cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar godi safonau.

Yn dilyn cyfnod o ansicrwydd, llwyddwyd mewn amser byr i roi strategaethau ar waith sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a safonau'r disgyblion. Mae cefnogaeth fywiog y dirprwy yn ddylanwad pwysig ar ddatblygiad yr ysgol. Er hyn, nid yw'r strategaethau wedi cael digon o effaith ar rai agweddau ar gyflawniad disgyblion. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae'r holl staff yn cydweithio yn effeithiol fel tîm. Mae disgrifiadau swydd clir wedi eu sefydlu ac mae pob aelod o staff a gwirfoddolwyr yn llwyr ymwybodol o'r egwyddorion a'r blaenoriaethau.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol ac mae ganddynt feddwl uchel o broffil o fewn y gymuned leol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg. O dan gyfarwyddyd y pennaeth, maent yn cryfhau eu rôl fel cyfeillion beirniadol i herio'r ysgol ynglŷn â safonau. Llwyddwyd i ail adolygu llawer o bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn ddiweddar.

Mae mentrau'r ysgol i gwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn datblygu'n effeithiol. Rhoddir sylw blaenllaw i ddatblygiad yr iaith Gymraeg ac i sicrhau bod llais y disgybl yn cael lle amlwg.

### Gwella ansawdd: Digonol

Mae gweithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol yn datblygu'n briodol. Mae holl aelodau'r staff yn cyfrannu i'r arfarnu gan ystyried sawl ffynhonnell o dystiolaeth. Mae'r disgyblion a'r rhieni yn cael cyfleoedd cyson i fynegi barn ond nid yw rôl y llywodraethwyr wedi ei ddatblygu cystal. Megis dechrau mae'r drefn o fonitro gwersi.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn cyfleu darlun gonest o sefyllfa gyfredol yr ysgol. Er hyn, nid yw'n rhoi sylw dyladwy i effeithiolrwydd ac effaith systemau a strategaethau'r ysgol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol ac wedi'i ffocysu'n glir ar wella safonau. Er hyn, nid yw'r targedau'n ddigon meintiol, ac o ganlyniad, nid yw'n hawdd i'r llywodraethwyr adolygu'r cynnydd.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu broffesiynol. Mae cyfleoedd rheolaidd a phriodol i alluogi'r holl staff i ddatblygu a rhannu gwybodaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r ymweliadau ag ysgolion eraill i weld arfer dda sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae'r ysgol yn datblygu medrau meddwl a gallu'r disgyblion i adolygu eu gwaith eu hunain.

### Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid i gefnogi lles a chyflawniad disgyblion. Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn gryf ac yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu nodau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd y gymuned leol. Mae disgyblion yn ymweld yn gyson â gwahanol fannau o fewn y pentref, ac yn aml yn croesawu unigolion

o'r gymuned i siarad â nhw yn yr ysgol. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau dysgu a'u hymwybyddiaeth o'u cynefin, Cymru a'r byd eang.

Mae cysylltiadau adeiladol gyda busnesau lleol a sefydliadau addysg uwch.

Mae'r cysylltiadau agos gyda'r cylch meithrin lleol, sy'n cwrdd yn yr ysgol, yn sicrhau fod y plant yn ymgartrefu'n hwylus yn yr ysgol. Mae trefniadau trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd lleol yn paratoi'r disgyblion hŷn hefyd yn effeithiol ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal, ynghyd â'r ysgolion uwchradd, er mwyn cymedroli a safoni gwaith disgyblion.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r awdurdod lleol a sefydliadau hyfforddi athrawon.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r arweinwyr a rheolwyr yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn dda gan sicrhau trefniadau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol

Mae trefniadau priodol ar gyfer gwerthuso a rheoli perfformiad yr holl staff. Gwneir defnydd effeithiol o staff cymorth ac mae eu cyfraniad yn cael effaith positif ar safonau.

Mae cyswllt cryf rhwng blaenoriaethau'r ysgol a phenderfyniadau gwariant. Mae prosesau monitro'r gyllideb yn datblygu ac yn rhoi ystyriaeth berthnasol i'r adroddiadau cyllidol cyson a ddarperir gan wasanaeth addysg yr awdurdod lleol.

O ystyried deilliannau disgyblion a'r defnydd a wneir o'r cyllid, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniad un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ym mhob blwyddyn.

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1 yn 2011, cyflawnodd bron pob disgybl y lefel disgwyliedig (lefel 2) yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn gyda'r uchaf yn y teulu. Dros gyfnod o bedair blynedd roedd canran y disgyblion gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig yn y tri phwnc mewn cyfuniad wedi amrywio. Roedd yn is na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Yn ystod yr un cyfnod roedd nifer y disgyblion gyflawnodd y lefel disgwyliedig mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg hefyd wedi amrywio. Yn 2011, roedd gyda'r uchaf yn y teulu.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 yn amrywio. Roedd ymhlith y 25% uchaf yn 2011 ond mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol, ymhlith y 50% isaf yng Nghymru.

Yn 2011, mae'r ganran gyrhaeddodd lefel 3 yn uwch na'r teulu a chyfartaledd Cymru yng ngwyddoniaeth ond yn is yn y Gymraeg a mathemateg. Mae'r niferoedd sy'n cyflawni'r lefel hon wedi amrywio dros y tair blynedd flaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canran disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi amrywio dros gyfnod o bedair blynedd. Yn gyffredinol, mae'n is nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru mewn tair o'r blynyddoedd hynny.

Yn 2011, cyflawnodd bron pob plentyn y lefel disgwyliedig yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% isaf mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Yn ystod y cyfnod, roedd nifer y disgyblion gyflawnodd y lefel disgwyliedig mewn llafaredd ac ysgrifennu Cymraeg, er yn debyg i ysgolion y teulu, yn tueddu i fod yn is na chyfartaledd Cymru. Yn gyffredinol, hyd at 2011, roedd nifer y disgyblion sy'n darllen yn Gymraeg ar y lefel disgwyliedig yn is nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru.

Dros yr un cyfnod, mae nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu Saesneg wedi codi ac er yn amrywio, yn tueddu i fod yn uwch nag ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru. Yn 2011, roedd gyda'r uchaf yn y teulu.

Heblaw am Saesneg yn 2010 a 2011, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson is nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru yn y pedwar pwnc dros gyfnod o bedair blynedd.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched yn y ddau gyfnod allweddol heblaw bod mwy o ferched yn tueddu i gyflawni'r lefel uwch yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 47 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr ysgol yn eu helpu i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor. Maent i gyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Er hyn mae dau ddisgybl yn dweud nad yw gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwneud eu gwaith. Mae un disgybl o'r farn nad yw bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda amser cinio ac amser chwarae.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr**

Derbyniwyd 26 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae lefelau bodlonrwydd rhieni yn uchel, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae'r rhieni i gyd yn cytuno bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol a bod yr addysgu yn dda. Nododd y cyfan o'r rhieni eu bod yn fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol ac maent bron i gyd yn cytuno'n ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Maent oll yn cytuno fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Cytuna bron pob un bod amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Maent bron i gyd hefyd yn cytuno bod cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol a bod plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae'r rheini bron i gyd yn datgan eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Enir Morgan | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mari Phillips | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jeannie Evans | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.